

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ionawr 2011

Bydd refferendwm i benderfynu a fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cael mwy o bwerau deddfu yn cael ei gynnal ar 3 Mawrth 2011.

Mae'r papur hwn yn rhoi cyflwyniad i'r refferendwm a throsolwg ohono. Mae'n egluro cyd-destun cyfreithiol y refferendwm ac yn darparu gwybodaeth am y rheolau a'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod hwnnw.

Nid yw'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r materion dan sylw yn y refferendwm ac nid yw'n darparu gwybodaeth am y grwpiau sy'n ymgyrchu ar gyfer y refferendwm.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ionawr 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/007

Gwnaed y gwaith ymchwil ychwanegol ar y papur hwn gan
Siân Nicholson, myfyriwr ôl-raddedig yn Adran Gwleidyddiaeth
Rhyngwladol Prifysgol Aberystwyth.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	1
2.1.	Refferendwm 1997.....	2
3.	Sut y cynhelir ac y gweinyddir y refferendwm	4
3.1.	Etholaethau'r refferendwm	5
3.2.	Cyfnod y refferendwm	6
3.3.	Dyddiad ac amser pleidlais y refferendwm	6
3.4.	Cwestiwn y refferendwm a'r rhagarweiniad	6
3.5.	Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrif	7
3.6.	Ymgyrchwyr cofrestredig.....	8
3.7.	Prif grwpiau ymgyrchu	8
3.8.	Asiantwyr y refferendwm, ac Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif.....	10
3.9.	Cyfyngiadau ar gyllid ymgyrch.....	10
4.	Pwy sy'n pleidleisio?	12
4.1.	Pwy sy'n cael pleidleisio?.....	12
4.2.	Cofrestru	12
4.3.	Pleidleisio drwy ddirprwy neu drwy'r post.....	13
4.4.	Materion ieithyddol	14
4.5.	Hyrwyddo	15
4.6.	Cyhoeddusrwydd	15
5.	Diwrnod y bleidlais	17
5.1.	Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?.....	17
5.2.	Arolwg barn wrth i bobl adael y gorsafoddd pleidleisio	17
5.3.	Amser y cyfrif.....	18
5.4.	Ail gyfrif.....	18
5.5.	Cyhoeddi'r canlyniadau	18
5.6.	Darpariaethau cychwyn	19
	Atodiad: Prif ddyddiadau ymgyrch y refferendwm	20

Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

1. Cyflwyniad

Bydd refferendwm i benderfynu a ddylid rhoi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol ("y refferendwm") yn cael ei gynnal ar 3 Mawrth 2011.

Mae'r trefniadau presennol, a nodir yn Rhan 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*' ("Deddf 2006"), yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i basio deddfwriaeth gynradd, a elwir yn 'Fesurau Cynulliad', ond dim ond ar ôl iddo gael y pwerau deddfu angenrheidiol i wneud hynny drwy'r Materion a gyflwynir, gyda chytundeb y Senedd, o fewn yr 20 Maes yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006.²

Os bydd y mwyafrif o'r boblogaeth yn pleidleisio o blaid cael mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac o blaid symud i Ran 4 o Ddeddf 2006 yn y refferendwm, bydd y Cynulliad yn gallu pasio deddfwriaeth, ar ffurf 'Deddfau Cynulliad', o dan yr holl feysydd a amlinellir yn yr 20 Maes a gynhwysir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Os bydd y mwyafrif yn pleidleisio yn erbyn cael mwy o bwerau, bydd y trefniadau presennol, a amlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf 2006, yn parhau.

Mae'r papur hwn yn rhoi cyflwyniad i'r refferendwm a throsolwg ohono. Mae'n egluro cyd-destun cyfreithiol y refferendwm fel y nodir yn Neddf 2006 ac yn *Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*³ ("PPERA 2000") ac yn darparu gwybodaeth am y rheolau a'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod sy'n arwain at y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod hwnnw.

Nid yw'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r materion dan sylw yn y refferendwm ac nid yw'n darparu gwybodaeth am y grwpiau sy'n ymgyrchu ar gyfer y refferendwm.

2. Cefndir

Y refferendwm yw canlyniad y broses a ddechreuodd gyda ffurfio clymblaid [Cymru'n Un](#) rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru ym mis Mehefin 2007. Roedd cytundeb y glymblaid, a lofnodwyd gan y ddwy blaid ar 27 Mehefin 2007, yn cynnwys ymrwymiad penodol "i symud ymlaen cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i gael canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran IV o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, ar ddiwedd y tymor Cynulliad hwn neu cyn hynny".⁴

¹ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#) [Saesneg yn unig]

² Mae rhagor o wybodaeth am bwerau deddfu presennol Cynulliad Cymru ar gael mewn cyfres o [Hysbysadau Hwylus gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad](#).

³ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(p.41\)](#) [Saesneg yn unig]

⁴ [Llywodraeth Cymru, Cymru'n Un: Rhaflen flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru, Mehefin 2007, tudalen 6 \[fel ar 10 Ionawr 2011\]](#)

Ar 9 Chwefror, cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol gynnig a gynigiwyd gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, yn galw i Orchymyn gael ei wneud o dan gymal 103(1) o Ddeddf 2006 a fyddai'n arwain at gynnal refferendwm ar fwy o bwerau ledled Cymru. Cymeradwywyd Gorchymyn dilynol yn cadarnhau y byddai refferendwm o'r fath yn cael ei gynnal ar 3 Mawrth 2011 gan ddau Dŷ Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod mis Tachwedd 2010.⁵

2.1. *Refferendwm 1997*

Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn y refferendwm - a gynhaliwyd ar 18 Medi 1997. O'r 50.1 y cant o etholwyr a bleidleisiodd yn y refferendwm, pleidleisiodd 50.3 y cant ohonynt o blaid creu Cynulliad Cenedlaethol, tra pleidleisiodd 49.7 y cant ohonynt yn erbyn hynny.⁶

Ceir manylion canlyniadau refferendwm 1997 ar gyfer pob etholaeth yn y tabl isod:

⁵ Ceir rhagor o wybodaeth am y camau y mae'n rhaid eu cymryd cyn y gellir cynnal refferendwm ar roi mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau [Steps to a referendum on further powers](#).
⁶[Llywodraeth Cymru, Refferendwm 1997 \[fel ar 10 Ionawr 2011\]](#)

Tabl 1: canlyniadau refferendwm 1997 yn ôl etholaeth⁷

Awdurdod lleol	Nifer y pleidleiswyr %	Cytuno	%	Anghytuno	%
Blaenau Gwent	49.3	15,237	56.4	11,928	43.6
Pen-y-bont ar Ogwr	50.6	27,632	54.4	23,172	45.6
Caerffili	49.3	34,830	54.7	28,841	45.3
Caerdydd	46.9	47,527	44.4	59,589	55.6
Sir Gaerfyrddin	56.4	49,115	65.3	26,119	34.7
Ceredigion	56.8	18,304	59.2	12,614	40.8
Conwy	51.5	18,369	40.9	26,521	59.1
Sir Ddinbych	49.7	14,271	40.8	20,732	59.2
Sir y Fflint	41	17,746	38.2	28,707	61.8
Gwynedd	59.8	35,425	64.1	19,859	35.9
Merthyr Tudful	49.5	12,707	58.2	9,121	41.8
Sir Fynwy	50.5	10,592	32.1	22,403	67.9
Castell-nedd a Phort Talbot	51.9	36,730	66.5	18,463	33.5
Casnewydd	45.9	16,172	37.4	27,017	62.6
Sir Benfro	52.6	19,979	42.8	26,712	57.2
Powys	56.2	23,038	42.7	30,966	57.3
Rhondda Cynon Taf	49.9	51,201	58.5	36,362	41.5
Abertawe	47.1	42,789	52	39,561	48
Tor-faen	45.5	15,756	49.8	15,854	50.2
Bro Morgannwg	54.3	17,776	36.7	30,613	63.3
Wrecsam	42.4	18,574	45.3	22,449	54.7
Ynys Môn	56.9	15,649	50.9	15,095	49.1

⁷ [Gwefan y BBC, Welsh Referendum Live – The Final Result \[fel ar 18 Ionawr 2011\]](#)

3. Sut y cynhelir ac y gweinyddir y refferendwm

Nodir y rheolau ynghylch cynnal a gweinyddu'r refferendwm mewn sawl cymal o Ddeddf 2006, yn ogystal â PPERA 2000. Darperir canllawiau a gwybodaeth fanwl am sut y gweinyddir y refferendwm mewn dau Orchymyn ychwanegol a wnaed o dan y Deddfau hynny.

Mae Atodlen 6 i Ddeddf 2006 yn amlinellu'r materion i'w nodi mewn Gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Gymal 103(1) sy'n gysylltiedig â'r refferendwm. Mae'r rhain yn cynnwys, ymysg materion eraill, gwestiwn y refferendwm, rhagarweiniad iddo a dyddiad ar ei gyfer. Mae Atodlen 6 i Ddeddf 2006 hefyd yn nodi darpariaethau penodol ynghylch sut y caiff y refferendwm ei gynnal, gan gynnwys gwybodaeth am bwy fyddai â'r hawl i bleidleisio.

Mae rhagor o ddarpariaethau sy'n ymwneud a sut i gynnal refferendwm yn y DU wedi'u cynnwys yn Rhan 7 o PPERA 2000. Mae'r darpariaethau hyn yn ofynion cyffredinol yn bennaf, fel hyd cyfnod y refferendwm, y gwaith o graffu ar gwestiynau arfaethedig y refferendwm, y rheini a gaiff gymryd rhan, enwebu'r prif grwpiau ymgyrchu a'r cymorth a ganiateir ar gyfer y sefydliadau hynny a enwebwyd. Mae hefyd yn cynnwys rheolaeth ariannol, rheolaethau ar gyfer cyhoeddiadau a sut i gynnal refferenda. Yn ogystal, mae PPERA 2000 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i:

- wneud sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm;
- cofrestru ymgyrchwyr;
- rheoleiddio gwariant ar ymgyrchoedd a'r rhoddion iddynt;
- enwebu'r prif grwpiau ymgyrchu;
- sefydlu a gweinyddu'r grantiau i'r prif grwpiau ymgyrchu;
- cyflwyno adroddiad ar sut y mae'r refferendwm yn cael ei gynnal a'i weinyddu; a
- sicrhau cywirdeb cyffredinol y canlyniad.

Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau sy'n rheoleiddio sut y caiff y refferendwm ei gynnal a'i weinyddu wedi'u cynnwys yn y ddau Orchymyn a wnaed o dan y ddwy Ddeddf y cyfeiriwyd atynt uchod ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a dau Dŷ Senedd y DU:

- Mae *Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati) 2010*⁸ ("Gorchymyn y Refferendwm") yn cael ei wneud o dan Gymal 103(1) o Ddeddf 2006 ac Atodlen 6 iddi. Mae'n gwneud y prif ddarpariaethau manwl

⁸ [Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837](#) [Saesneg yn unig]

ar gyfer cynnal y refferendwm, gan gynnwys y dyddiad, y cwestiwn a rheolau'r refferendwm.

- Mae *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati) 2010*⁹ ("Gorchymyn Treuliau'r Refferendwm") yn cael ei wneud o dan GYmal 109(6) a 156(5) o PPERA 2000 yn ogystal ag Atodlenni 13 a 14 iddi. Mae'n nodi'r terfynau ar gyfer treuliau'r rheini sy'n cael caniatâd i gymryd rhan yn y refferendwm yn ystod cyfnod y refferendwm.

3.1. *Etholaethau'r refferendwm*

Yn ôl paragraff 6 o'r Gorchymyn Refferendwm, bydd ardaloedd pleidleisio'r refferendwm arfaethedig yn cael eu rhannu i'r un ardaloedd pleidleisio a ddefnyddir ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol.¹⁰ Dyma ardaloedd pleidleisio etholiadol llywodraeth leol ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;
- Cyngor Caerdydd;
- Cyngor Sir Gâr;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Sir y Fflint;
- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Sir Ynys Môn;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
- Cyngor Sir Fynwy;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- Cyngor Dinas Casnewydd;
- Cyngor Sir Penfro;
- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Dinas a Sir Abertawe;

⁹ [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2985](#) [Saesneg yn unig]

¹⁰ [Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837, paragraff 6\(1\)](#) [Saesneg yn unig]

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen;
- Cyngor Bro Morgannwg; a
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

3.2. *Cyfnod y Refferendwm*

Mae paragraff 5 o'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi, yn unol â darpariaethau Rhan 7 o PPERA 2000: "the referendum period for the referendum begins with the date on which this order comes into force and ends with the date of the poll at the referendum".¹¹

Felly, dechreuodd cyfnod y refferendwm ar 16 Rhagfyr 2010 a bydd yn dod i ben ar 3 Mawrth 2011. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rheolau ar ymgyrchu, gwario a rhoddion yn berthnasol. O dan Gymal 125 o PPERA 2000, fodd bynnag, mae rheolau gwahanol yn gymwys i gyrff cyhoeddus sy'n cyhoeddi gwybodaeth am y refferendwm yn y dyddiau sy'n arwain at y diwrnod pleidleisio. Mae manylion y rhain wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.6 isod.

3.3. *Dyddiad ac amser pleidlais y refferendwm*

Mae paragraff 3, yn ogystal â pharagraff 4, o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi y bydd y **bleidlais yn digwydd rhwng 07.00 a 22.00 ar 3 Mawrth 2011.**¹²

3.4. *Cwestiwn y refferendwm a'r rhagarweiniad*

Mae paragraff 4 o'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi mai'r hyn a ganlyn fydd cwestiwn y refferendwm a'r rhagarweiniad:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd

Mae gan y Cynulliad y pwerau i lunio deddfau mewn 20 maes pwnc, megis:

amaethyddiaeth	iechyd
addysg	tai
yr Amgylchedd	llywodraeth Leol

Mae'r Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **rai** materion ym mhob maes pwnc ond nid ar faterion eraill. Er mwyn llunio deddfau ar unrhywun o'r materion eraill hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad ofyn am gytundeb Senedd y DU. Yna, mae Senedd y DU yn penderfynu bob tro a gaiff y Cynulliad lunio'r deddfau hyn neu beidio.

Ni all y Cynulliad lunio deddfau mewn meysydd pwnc fel amddiffyn, trethi neu fudd-daliadau lles, beth bynnag fo canlyniad y bleidlais hon.

¹¹ [Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837, paragraff 5](#) [Saesneg yn unig]

¹² [Ibid, paragraff 3 ac Atodlen 3](#)

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio ‘ydw’, bydd y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio ‘nac ydw’, bydd yr hyn sy’n digwydd ar hyn o bryd yn parhau.

A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?¹³

Mae'r Gorchymyn Refferendwm yn rhagnodi bod yn rhaid i'r rhagarweiniad a'r cwestiwn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y papurau pleidleisio.

3.5. Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrif

Mae Cymal 128(2) o PPERA 200 yn nodi mai Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, neu rywun y mae'n ei benodi, fydd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer pob refferendwm. **Y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm hwn yw Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, a Bryn Parry-Jones, Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro, yw'r Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif.**¹⁴

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am:

- benodi Swyddog Cyfrif ar gyfer pob ardal awdurdod lleol o fewn ardal y refferendwm;
- cyfrifo a datgan cyfanswm y papurau pleidleisio a gyfrifwyd; a
- cyfrifo a datgan cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd o blaid pob ateb i gwestiwn y refferendwm (y canlyniad).¹⁵

Mae rôl y Swyddogion Cyfrif yn debyg i rôl y Swyddogion Canlyniadau mewn etholiad. Yn ôl paragraff 10(3) o'r Gorchymyn Refferendwm, maent yn gyfrifol am:

- weinyddu'r bleidlais yn eu hardal;
- sicrhau bod yr holl bapurau pleidleisio wedi'u llenwi'n gywir ac wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad;
- cyfri'r pleidleisiau a fwriwyd yn eu hardal; a
- cyfrifo nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid pob ateb i gwestiwn y refferendwm, a throsglwyddo'r wybodaeth honno i'r Prif Swyddog Cyfrif.¹⁶

O dan baragraff 14 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm, rhaid i Swyddog Cyfrif hefyd benodi a thalu Llywydd a Chlercod i fynd i bob gorsaf bleidleisio i oruchwylio'r pleidleisio yn ei ardal.

¹³ [Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837, paragraff 4\(1\)](#) [Saesneg yn unig]

¹⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, Chief Counting Officer \[fel ar 7 Ionawr 2011\]](#)

¹⁵ [Ibid](#)

¹⁶ [Y Comisiwn Etholiadol, Chief Counting Officer \[fel ar 7 Ionawr 2011\]](#)

3.6. *Ymgyrchwyr cofrestredig*

O dan PPERA 2000, rhaid i unrhyw un sy'n dymuno gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol i ddod yn "ymgyrchydd cofrestredig" (neu'n "gyfranogwr cymeradwy"). Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, mae buddion gwneud hyn yn cynnwys:

- yr hawl i wario mwy na £10,000;
- yr hawl i ddefnyddio'r gofrestr o etholwyr i gynorthwyo'r ymgyrch; a
- yr hawl i gynrychiolwyr fynd i sesiynau agor pleidleisiau a fwriwyd drwy'r post, gorsafodd pleidleisio a chyfrifiad y pleidleisiau.¹⁷

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn agor ei gofrestrau ar gyfer darpar ymgyrchwyr ar ddechrau pob cyfnod refferendwm. Dim ond yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn all gofrestru fel ymgyrchwyr:

- unigolyn sy'n byw yn y DU neu sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestri o etholwyr y DU;
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU sy'n rhan o'r UE ac sy'n gweithredu ei fusnes yn y DU;
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU;
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU sy'n gweithredu ei busnes yn y DU;
- cymdeithas lesiant, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU; a
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU sy'n gwneud y rhan fwyaf o'i busnes a'i gweithgareddau eraill yn y DU.¹⁸

3.7. *Prif grwpiau ymgyrchu*

Mae PPERA 2000 hefyd yn nodi y gall grwpiau ymgyrchu cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i ddod yn un o'r "prif grwpiau ymgyrchu" (neu "gorff dynodedig"). Dywed canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar y broses enwebu:

Mae un grŵp ymgyrchu (a elwir hefyd yn gorff dynodedig) yn cynrychioli pob ochr y drafodaeth refferendwm. Maen nhw'n gweithredu fel prif grŵp ymgyrchu ar ran y rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

¹⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, *Topic Overview: Overview of referendum campaigns*, tudalen 6 \[fel ar 7 Ionawr 2011\]](#)

¹⁸ [Ibid](#)

Mae prif grwpiau ymgyrchu yn cael rhai buddion penodol sydd uwchben ymgyrchwyr cofrestredig eraill. Er enghraifft, mae ganddyn nhw derfyn gwariant sy'n uwch na'r ymgyrchwyr cofrestredig eraill, a maen nhw'n derbyn grant oddi wrthyn ni.¹⁹

Mae'r buddion ar gyfer y prif grŵp ymgyrchu'n cynnwys:

- terfyn gwariant uwch na hwnnw ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig eraill;
- yr hawl i ddsbarthu gwybodaeth am ddim i etholwyr;
- yr hawl i wneud darllediadau fel rhan o ymgyrch y refferendwm;
- yr hawl i ddefnyddio rhai ystafelloedd cyhoeddus am ddim; a
- grant a ariennir yn gyhoeddus a osodir gan y Comisiwn Etholiadol.²⁰

Yn ôl y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol, bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i'r wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeiswyr ar gyfer cael statws y brif ymgyrch mewn perthynas â:

- chefnogaeth ar gyfer y cais: i ba raddau mae'r grŵp yn cynrychioli amrywiaeth o ymgyrchwyr sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir;
- cynlluniau ar gyfer cynrychioli ymgyrchwyr eraill: i ba raddau y bydd grŵp yn ceisio ymgysylltu â grwpiau eraill sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir;
- capasiti ymgyrchu: gallu grŵp i gyrraedd cynifer o bleidleiswyr â phosibl ledled ardal y refferendwm er mwyn cynrychioli'r rheini sy'n ymgyrchu o blaid yr un canlyniad mewn modd digonol; a
- capasiti trefniadol: a oes gan grŵp y gallu i gynrychioli eraill sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir mewn modd digonol.²¹

Unwaith y bydd y ceisiadau'n dod i law, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol enwebu'r ymgeiswyr sy'n cynrychioli orau'r rheini sy'n cefnogi'r canlyniad i'r refferendwm y maent wedi'i ddewis.²² **Os bydd y Comisiwn Etholiadol yn ystyried nad oes yr un o'r ymgeiswyr yn cynrychioli'r rheini sy'n cefnogi y naill ganlyniad neu'r llall yn ddigonol, yna ni all enwebu prif grŵp ymgyrchu ar y naill ochr na'r llall.**²³

Cododd Elfyn Llwyd AS y mater hwn yn ystod dadl ar y Gorchymyn Refferendwm yng nghyfarfod Pedwerydd Pwyllgor Deddfwriaeth Ddirprwyedig Tŷ'r Cyffredin ar 24 Tachwedd 2010:

I understand that the Electoral Commission, once the "yes" campaign has gone through certain categories, will register it as being able to draw down public funding. It will not be

¹⁹ Y Comisiwn Etholiadol, *Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Y broses o ddynodi*, tudalen 3 [fel ar 7 Ionawr 2011]

²⁰ *Ibid.* tudalen 8

²¹ Y Comisiwn Etholiadol, *National Assembly for Wales Referendum 2011: Application for lead group status*, tudalen 3 [fel ar 14 Ionawr 2011]

²² *Ibid.* tudalen 3

²³ Y Comisiwn Etholiadol, *National Assembly for Wales Referendum 2011: Application for lead group status*, tudalen 3 [fel ar 14 Ionawr 2011]

able to do so unless the “no” campaign has similarly met those criteria. I am hopeful that somebody somewhere, who might even read what we are discussing today, will look at that. If for some reason the “no” campaign did not get itself in order in time, that would deprive the “yes” campaign of broadcasting rights, free broadcasting and public funding. I make that point in passing, because, in the interests of democracy, we need a full and open debate. I am not trying to issue a back-handed insult to the “no” campaign; evidently I shall not be in that camp. Having said that, the process could be clogged—I hope that somebody referring to the debate will look at that, because it is an important point.²⁴

Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru:

If the Electoral Commission cannot designate an official campaign on both sides, it will not designate an official campaign. However, it would be for the Electoral Commission to decide whether it should provide further information in that event. The commission has wide power under article 16 to promote public awareness of the referendum, its subject matter and how to vote in it²⁵.

Dyddiad cau'r broses o wneud cais i fod yn un o'r prif grwpiau ymgyrchu oedd 19 Ionawr 2011. Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol wneud penderfyniad ar enwebu prif ymgyrchwyr erbyn 2 Chwefror 2011.²⁶

3.8. Asiantwyr y refferendwm, ac Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif

Mae paragraff 18 o'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi y gall ymgyrchwyr cofrestredig benodi unigolyn i weithredu fel Asiant y Refferendwm ym mhob etholaeth. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn diffinio Asiantwyr y Refferendwm fel y rheini sy'n gyfrifol am benodi cynrychiolwyr yn eu hardal i fynd i:

- sesiynau agor pleidleisiau a fwriwyd drwy'r post;
- gorsafoedd pleidleisio; a
- cyfrifiad y pleidleisiau.²⁷

Mae paragraff 17 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm hefyd yn datgan y gall Asiantwyr y Refferendwm benodi Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif i fynd i'r cyfrifiad o'r pleidleisiau ac i fynd i'r gorsafoedd pleidleisio at ddibenion datgelu unrhyw gambersonadu (hy y weithred o ffugio cymeriad pleidleisiwr arall).

3.9. Cyfyngiadau ar gyllid ymgyrch

Mae paragraff 4 o Orchymyn Treuliau'r Refferendwm yn nodi mai £600,000 yw'r uchafswm gwariant ar gyfer y prif grŵp ymgyrchu a ddynodir.²⁸ Yn

²⁴ [Pedwerydd Pwyllgor Deddfwriaeth Dirprwyiedig Tŷr Cyffredin, Dydd Mercher 24 Tachwedd 2010, c.9 \[fel ar 14 Rhagfyr 2010\]](#)

²⁵ [Ibid., c.13](#)

²⁶ [Y Comisiwn Etholiadol, Situation and Procedures: National Assembly for Wales Referendum 2011 \(Specific Guidance\), tudalen 10 \[fel ar 7 Ionawr 2011\]](#)

²⁷ [Ibid., tudalen 7](#)

²⁸ [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2985 \[Saesneg yn unig\]](#)

ogystal, mae grant o £70,000 ar gael i'r prif grŵp ymgyrchu i'w ddefnyddio ar gyfer talu am seilwaith (ee swyddfeydd, staff, ac ati), ond nid i dalu am gostau ymgyrchu, ac ati.²⁹

Mae Gorchymyn Treuliau'r Refferendwm hefyd yn nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar sail eu cyfran o'r bleidlais yn yr etholiadau diwethaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007. Mae'r ffigurau ar gyfer pob plaid i'w gweld isod:

- gall y Blaid Lafur wario hyd at £600,000;
- gall y Blaid Geidwadol wario hyd at £480,000;
- gall Plaid Cymru wario hyd at £480,000;
- gall y Democratiaid Rhyddfrydol wario hyd at £360,000;
- gall unrhyw blaid arall wario hyd at £100,000.³⁰

Gall ymgyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol wario hyd at £10,000; fodd bynnag, rhaid iddynt gofrestru os ydynt yn bwriadu gwario, neu os ydynt yn gwario, mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm. Mae'r rheini sy'n ymgyrchwyr cofrestredig, ond nad ydynt yn un o'r prif bleidiau gwleidyddol a restrir uchod, yn cael eu cyfyngu i wario hyd at £100,000.³¹

Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau sy'n gymwys i wario ar ymgyrchu yn ystod y refferendwm a rhoddion ymgyrchu ar gael ar y dudalen [Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011](#) ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

²⁹ [Ibid](#)

³⁰ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyllfaoedd a gweithdrefnau: Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 \(cyfarwyddyd penodol\), tudalen 6 \[fel ar 7 Ionawr 2011\]](#)

³¹ [Ibid](#)

4. Pwy sy'n pleidleisio?

4.1. Pwy sy'n cael pleidleisio?

Mae paragraff 1(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 2006 yn nodi mai'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn y refferendwm yw'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Cymal 12 o Ddeddf 2006 yn nodi mai'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r rheini sydd ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sydd â chyfeiriad yng Nghymru.

Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, rhaid i berson fod yn un o'r canlynol er mwyn gallu cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol:

- dinesydd Prydeinig sy'n byw yn y DU;
- dinesydd cymwys o'r Gymanwlad sy'n byw yn y DU;
- dinesydd o Weriniaeth Iwerddon sy'n byw yn y DU;
- dinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU;
- rhywun sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio fel Gwas y Goron; a /neu
- rhywun sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio fel pleidleisiwr gwasanaeth.

Ni all dinesydd Prydeinig sy'n byw dramor sydd wedi'i gofrestru fel etholwr tramor bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.³²

4.2. Cofrestru

Cofrestru etholiadol yw'r broses o gasglu a chadw cofrestr o etholwyr. Mae Adran 8 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*³³ ("RPA 1983") yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddogion Cofrestru Etholaethol yn cael eu penodi i gofrestru etholwyr. Mae'n ofynnol bod y swyddogion yn paratoi ac yn cyhoeddi cofrestr o'r etholwyr ar gyfer eu hardal bob blwyddyn ac yn ei diweddarau drwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i gynnwys enwau pawb y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn gymwys, gan gymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae dwy ffordd o gofrestru i bleidleisio. Y cyntaf yw'r "Canfasiad Blynnyddol" pan gaiff ffurflen ei hanfon at bob tŷ er mwyn i'r preswylwyr gofrestru rhwng mis Medi a mis Tachwedd bob blwyddyn. Yr ail yw'r broses o gofrestru graddol lle y gellir cofrestru ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn oherwydd caiff y gofrestr ei diweddarau bob mis rhwng mis Rhagfyr a mis Medi.

Er nad yw cofrestru'n orfodol, mae gan y Swyddogion Cofrestru Etholaethol y pŵer i ofyn am wybodaeth i'r diben o ddiweddarau'r gofrestr o etholwyr. Gosodwyd dirwy am beidio â llenwi a dychwelyd ffurflen ar gyfer y gofrestr o etholwyr neu

³² [Y Comisiwn Etholiadol, Who is eligible to vote at a local government election? \[fel ar 6 Rhagfyr 2010\]](#)

³³ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 \(p.2\)](#) [Saesneg yn unig]

am roi gwybodaeth ffug am y tro cyntaf ym 1918, ac estynnwyd hynny i gynnwys cofrestru graddol yn 2006. Y gosb bresennol ar gyfer y drosedd hon yw dirwy heb fod yn fwy na £1,000.

Nid yw'n angenrheidiol cofrestru'n benodol ar gyfer y refferendwm hwn; os yw etholwr ar y gofrestr o etholwyr, yna bydd yn gallu pleidleisio. Fodd bynnag, os nad yw etholwr ar y gofrestr o etholwyr, y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau i bleidleisio yn y refferendwm yw canol nos ar 16 Chwefror 2011.³⁴ Os yw etholwr wedi symud tŷ neu wedi newid ei enw'n ddiweddar, bydd angen iddo ailgofrestru i fod yn gymwys i bleidleisio.

4.3. Pleidleisio drwy ddirprwy neu drwy'r post

Gall y rheini nad ydynt eisiau mynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wneud cais naill ai i bleidleisio drwy'r post neu i drefnu i rywun arall bleidleisio ar eu rhan (pleidleisio drwy ddirprwy). Gall hyn gynorthwyo pleidleiswyr anabl neu'r henoed i gymryd rhan yn y broses etholiadol.

Cyflwynwyd yr hawl i bob pleidleisiwr ddewis pleidleisio drwy'r post ar gais yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000*,³⁵ a chryfhawyd y darpariaethau diogelwch mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post yn dilyn hynny yn *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2006*³⁶ a *Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006*.³⁷

Yn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2007, gwnaeth 13 y cant o'r etholwyr cymwys gais i bleidleisio drwy'r post a dychwelodd 78 y cant ohonynt eu pleidlais.³⁸ Yn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010, dosbarthwyd pleidlais drwy'r post i 15 y cant o'r etholwyr cymwys, a dychwelodd 83 y cant ohonynt eu pleidlais.³⁹

Mae Atodlen 2 i'r Gorchymyn Refferendwm yn amlinellu'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer dosbarthu a chasglu pleidleisiau drwy'r post. Yn ôl y rheoliadau hyn, **ni ellir dosbarthu papur pleidleisio na datganiad ar gyfer pleidleisio drwy'r post tan ar ôl 17.00 ar 16 Chwefror 2011.**

Y dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (ar wahân i'r ceisiadau a wneir yn sgil argyfwng meddygol) yw 17.00 ar 23 Chwefror 2011.

Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi bod yn rhaid i'r Swyddogion Cofrestru Etholaethol ganiatáu cais gan berson i bleidleisio drwy'r

³⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, *The National Assembly for Wales Referendum 2011 \(Specific Guidance\)*, tudalen 11 \[fel ar 11 Ionawr 2011\]](#)

³⁵ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 \(p.2\)](#) [Saesneg yn unig]

³⁶ [Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl \(Cymru a Lloegr\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2006](#) [Saesneg yn unig]

³⁷ [Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 \(p.22\)](#) [Saesneg yn unig]

³⁸ [Y Comisiwn Etholiadol, *The National Assembly for Wales Referendum 2011 \(Specific Guidance\)*, tudalen 6 \[fel ar 11 Ionawr 2011\]](#)

³⁹ [Y Comisiwn Etholiadol, *Report on the administration of the 2010 UK general election*, Gorffennaf 2010, paragraff 5.5 \[fel ar 14 Ionawr 2011\]](#)

post neu drwy ddirprwy os ydynt yn fodlon bod yr ymgeisydd ar y gofrestr o etholwyr a bod y cais yn ateb y gofynion a nodir ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 1. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu manylion personol ac:

- yn achos cais i bleidleisio drwy'r post, rhaid iddynt nodi pam y bydd, neu y bydd yn debygol y bydd, amgylchiadau'r ymgeisydd yn ei gwneud yn ofynnol anfon papur pleidleisio i'r cyfeiriad a nodwyd;
- yn achos cais i benodi dirprwy, rhaid iddynt nodi enw a chyfeiriad llawn y person y mae'r ymgeisydd yn dymuno ei benodi yn ddirprwy; a
- yn achos cais i bleidleisio drwy ddirprwy, rhaid iddynt gynnwys datganiad yn nodi'r rhesymau pam y bydd, neu y bydd yn debygol y bydd, amgylchiadau'r ymgeisydd ar ddyddiad y refferendwm yn golygu na fydd yn rhesymol disgwyl iddo bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio a neilltuwyd ar ei gyfer.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn dosbarthu cod ymddygiad ar gyfer ymdrin â cheisiadau i bleidleisio drwy'r post a phapurau i bleidleisio drwy'r post maes o law. Byddant yn ymddangos ar y tudalennau [Siart Gyfarwyddyd](#) ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

4.4. *Materion ieithyddol*

Mae gallu ieithyddol yn ffactor pwysig o ran caniatáu i unigolion ddefnyddio'r broses etholiadol, p'un ai mewn perthynas â chofrestru, fel y trafodwyd uchod, neu'r weithred o bleidleisio, o ran deall y papur pleidleisio neu allu cael gafael ar gyngor. Ar hyn o bryd, mae'r prif ffurflenni statudol, fel y papurau pleidleisio a chofrestru, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru.

Mae paragraff 19(2) o'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi:

The person who is required or authorised to give or display the document must give or display or otherwise make available in such form as that person thinks appropriate—

- (a) The document in Braille;
- (b) The document in languages other than English and Welsh;
- (c) Graphical representations of the information contained in the document; and
- (d) Other means of making the information accessible to persons who might not otherwise have reasonable access to the information.⁴⁰

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol, [About My Vote](#), hefyd yn darparu gwybodaeth yn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëg (traddodiadol), Gujarati, Hindi, Latfieg, Lithwaneg, Pwyleg, Portiwgaleg, Punjabeg ac Wrddw ac mae'n nodi bod gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

⁴⁰ [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837, paragraff 19\(2\)](#) [Saesneg yn unig]

4.5. *Hyrwyddo*

Mae paragraff 16 o'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd yng Nghymru o'r refferendwm, pwnc y refferendwm a sut i bleidleisio yn y refferendwm.⁴¹

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amlinellu beth fydd ei weithgaredd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch refferenda yn ei brif bapur sy'n amlinellu ei rôl mewn perthynas â chynnal refferenda.⁴²

- bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi ystyriaeth gadarnhaol i weithgaredd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd;
- bydd y Comisiwn Etholiadol yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth i'r pleidleiswyr a sicrhau bod pobl wedi'u cofrestru i bleidleisio;
- llyfryn gwybodaeth ar gyfer pleidleiswyr ar aelwydydd fydd yr ohebiaeth graidd (cyhyd ag y bydd yn cael ei ddsbarthu cyn i'r pleidleisiau drwy'r post gyrraedd); a
- cytunir ar raddau gweithgaredd y Comisiwn Etholiadol ar sail achosion unigol, gan gynnwys darparu gwybodaeth am ystyr pleidlais 'Ydw' neu 'Nac ydw' os na fydd y Comisiwn yn gallu enwebu prif grŵp ymgyrchu. Bydd hyn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, fel lefel yr ymgyrchu sydd ar waith a faint o bleidleiswyr sydd eisoes yn gwybod am bwnc y refferendwm.

O dan baragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, gall Comisiwn y Cynulliad hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau'r Cynulliad a'r system bresennol o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, neu unrhyw system yn y dyfodol. O dan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, gall Comisiwn y Cynulliad hefyd roi cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol i'r diben o'i alluogi i arfer ei swyddogaethau o dan Gymal 13(1) o PPERA 2000.

Lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ymgyrch [Pleidleisiwch 2011](#) ar 10 Ionawr 2011. Diben yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog pobl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 (yn ogystal â'u hatgoffa am yr etholiadau amrywiol eraill sy'n digwydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, sef y refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r refferendwm ar newid y system bleidleisio i Senedd y DU).

4.6. *Cyhoeddusrwydd*

Mae Cymal 125 o PPERA 2000 yn cyfyngu ar Lywodraeth Cymru a chyrff eraill a gefnogir gan arian cyhoeddus (gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad) fel na allant gyhoeddi unrhyw ddeunydd sy'n gwneud yr hyn a ddisgrifir isod:

⁴¹ [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, Ac Ati\) 2010. Rhif 2837, paragraff 16](#) [Saesneg yn unig]

⁴² [y Comisiwn Etholiadol, Key principles for Referendums, tudalen 3 \[fel ar 6 Rhagfyr 2010\]](#)

- (a) provides general information about a referendum to which this Part applies;
- (b) deals with any of the issues raised by any question on which such a referendum is being held;
- (c) puts any arguments for or against any particular answer to any such question; or
- (d) is designated to encourage voting at such a referendum.⁴³

Gwaherddir cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn ystod y 28 diwrnod sy'n arwain at yr etholiad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol, o dan y Ddeddf, i ddeunydd y mae aelod o'r cyhoedd yn gwneud cais penodol amdano nac i wybodaeth ffeithiol sy'n ymwneud â chynnal yr etholiad neu gyhoeddi hysbysiadau i'r wasg. Mae'r BBC ac S4C wedi'u heithrio o'r cyfyngiad, fel y mae'r Comisiwn Etholiadol.⁴⁴

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2010, eglurodd y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, sefyllfa Llywodraeth Cymru mewn perthynas a Chymal 125 o PPERA 2000. Dywedodd:

Bydd y cyfyngiadau statudol hyn yn gymwys am 28 diwrnod cyn y bleidlais. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cytuno gyda'r Comisiwn Etholiadol na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag unrhyw ymgyrch gyhoedduswydd ynghylch y refferendwm. Bydd hyn yn gymwys o heddiw ymlaen, hyd at a chan gynnwys y diwrnod pleidleisio.⁴⁵

⁴³ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(c.41\), adran 125](#) [Saesneg yn unig]

⁴⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, *Referendums Factsheet*, November 2009, tudalen 2](#) [fel ar 13 Ionawr 2011]

⁴⁵ [Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Cyfnod y Refferendwm*, 16 Rhagfyr 2010](#) [fel ar 14 Ionawr 2012]

5. Diwrnod y bleidlais

Diwrnod pleidlais y refferendwm yw dydd Iau, 3 Mawrth 2010, a gellir pleidleisio rhwng 07.00 a 22.00.

5.1. *Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?*

Yn ôl y Gorchymyn Refferendwm, gall y bobl a ganlyn fynd i'r orsaf bleidleisio yn ystod diwrnod y bleidlais:⁴⁶

- pleidleiswyr;
- personau o dan 18 oed sy'n mynd gyda'r pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio;
- cymdeithion pleidleiswyr sydd ag anabledau;
- Asiantwyr y Refferendwm;
- Asiantwyr Pleidleisio a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- clerod a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- y Prif Swyddog Cyfrif, y Dirprwy Brif Swyddog Cyfrif ac aelodau o staff y Prif Swyddog Cyfrif;
- Swyddog Cyfrif ac aelodau o'i staff;
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig; a
- cwnstabiliaid ar ddyletswydd.

Dylai pawb sy'n mynd i'r orsaf bleidleisio fod yn ymwybodol o'r gofyniad i sicrhau bod y bleidlais yn gyfrinachol.⁴⁷

5.2. *Arolwg barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio*

Mae paragraff 7 o Atodlen 4 i'r Gorchymyn Refferendwm yn gwahardd cyhoeddi canlyniadau'r arolygon barn a gynhelir wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio cyn i'r brif bleidiais ddod i ben, sef:

(a) any statement relating to the way in which voters have voted in the referendum where that statement is (or might reasonably be taken to be) based on information given by voters after they have voted; or

(b) any forecast as to the result of the referendum which is (or might reasonably be taken to be) based on information so given.⁴⁸

Mae paragraff 7(3) a (4) o Atodlen 4 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi os bydd person yn cael ei gollfarnu o'r tramgwydd hwn, yna gallai fod yn agored i gael ei garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis neu i gael dirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

⁴⁶ [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad\) \(Terfyn ar Dreuliau'r Refferendwm, ac ati\) 2010, Rhif 2837, Atodlen 3, paragraff 20\(1\)](#) [Saesneg yn unig]

⁴⁷ [Ibid, Atodlen 3, paragraff 18](#)

⁴⁸ [Ibid, Atodlen 3 paragraff 7](#)

5.3. Amser y cyfrif

Mae paragraff 33 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi na chaiff y broses o gyfri'r pleidleisiau ar gyfer y refferendwm ddechrau cyn 09.00 ar y diwrnod yn dilyn cau'r bleidlais (dydd Gwener, 4 Mawrth 2011). Mae hyn yn golygu na ellir cynnal y cyfrif dros nos, fel y digwyddodd ar gyfer refferendwm datganoli 1997 yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn crynhoi'r rhesymau a roddwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif dros benderfynu cynnal y cyfrif ar y diwrnod yn dilyn cau'r bleidlais yn y ddogfen [Timing of the count for the referendum on the law making powers of the National Assembly for Wales](#). Y tri phrif reswm a roddwyd o blaid cynnal y cyfrif ar y dydd Gwener yw:

- bydd y cyfrif yn effeithlon ac effeithiol, a bydd yn dechrau mewn ffordd gydgyssylltiedig y gall pleidleisiwyr ymddiried ynddi;
- gallai tywydd garw posibl yn gynnar ym mis Mawrth achosi oedi o ran dosbarthu'r blychau pleidleisio i'r canolfannau cyfrif;
- bydd yn caniatáu i fwy o'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd drwy roi cyfle iddynt sicrhau bod cyhoeddi'r canlyniad yn ddigwyddiad democrataidd ynddo'i hun, y gallai'r cyfryngau yng Nghymru roi sylw iddo. Byddai hyn yn sicrhau bod mwy o'r cyhoedd yn gallu cymryd rhan yn y broses.⁴⁹

5.4. Ail gyfrif

Mae paragraff 37 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm yn caniatáu i Asiantwyr y Refferendwm a'r Asiantwyr Cyfrif dynodedig, sy'n bresennol ar ddiwedd cyfri'r pleidleisiau yn eu hardal benodol, ofyn i'r pleidleisiau gael eu hail-gyfrif. Fodd bynnag, gall y Swyddog Cyfrif wrthod cais o'r fath os yw'n credu ei fod yn afresymol.

5.5. Cyhoeddi'r canlyniadau

Mae paragraff 39 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Swyddog Cyfrif, pan fydd wedi penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny, gyfarwyddo Swyddog Cyfrif i ardystio:

- nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ganddo; a
- nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid pob ateb i'r cwestiwn a ofynnwyd yn y refferendwm.

Rhaid i'r Swyddog Cyfrif roi nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd hefyd i'r Prif Swyddog Cyfrif. Unwaith y bydd y Prif Swyddog Cyfrif wedi awdurdodi hyn, rhaid

⁴⁹ Y Comisiwn Etholiadol *The Chief Counting Officer's decision on the timing of the count* [fel ar 14 Ionawr 2011]

i'r Swyddog Cyfrif wneud datganiad cyhoeddus a chyhoeddi hysbysiad cyhoeddus ysgrifenedig yn datgan y canlyniadau yn ei ardal.

Mae paragraff 40 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm yn nodi, yn dilyn cyhoeddi'r holl ganlyniadau o bob ardal awdurdod lleol gan bob Swyddog Cyfrif, bod yn rhaid i'r Prif Swyddog Cyfrif ardystio:

- cyfanswm y papurau pleidleisio a gyfrifwyd; a
- cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd o blaid pob ateb.

O dan baragraff 40(2) o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Refferendwm, pan fydd y Prif Swyddog Cyfrif yn datgan canlyniad y refferendwm yn gyhoeddus, ar yr un pryd rhaid iddo anfon copi o'r hysbysiad hwnnw at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru.

5.6. Darpariaethau cychwyn

O dan Gymal 105 o Ddeddf 2006, pe bai'r mwyafrif yn bwrw pleidlais 'Ydw' yn y refferendwm, mae'n ofynnol wedyn bod Gweinidogion Cymru'n gwneud darpariaethau i Ran 4 o Ddeddf 2006 ddod i rym drwy orchymyn. Byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru osod gorchymyn o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a byddai'n rhaid i'r mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad bleidleisio o'i blaid yn y Cyfarfod Llawn cyn iddo ddod i rym.

Pe bai'r mwyafrif yn bwrw pleidlais "Nac ydw" yn y refferendwm, ni fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach oherwydd byddai'r trefniadau presennol, a amlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf 2006, yn parhau.

Atodiad: Prif ddyddiadau ymgyrch y refferendwm

Dyddiad	Digwyddiad
9 Chwefror 2010	Cynnig, sy'n ofynnol o dan Gymal 104(1) o Ddeddf 2006, yn galw am refferendwm yn cael ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol.
17 Chwefror 2010	Y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i argymhell i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i gynnal refferendwm o dan Gymal 103(1) o Ddeddf 2006.
6 Mai 2010	Etholiad Cyffredinol y DU
15 Mehefin 2010	Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, yn rhoi rhesymau dros beidio â chyflwyno'r cynnig i San Steffan o dan y rheol 120 diwrnod.
23 Mehefin 2010	Yr Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol i wahodd ei sylwadau ar ddiffyg eglurder y cwestiwn a'r rhagymadrodd ar gyfer y refferendwm arfaethedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.
2 Medi 2010	Y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddiffyg eglurder cwestiwn y refferendwm, ac yn awgrymu cwestiwn newydd.
21 Hydref 2010	Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod y Gorchymyn Refferendwm a Gorchymyn Treuliau'r Refferendwm, sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2006 a PPERA 2000 cyn pleidlais refferendwm, gerbron Senedd y DU.
9 Tachwedd 2010	Y Cynulliad Cenedlaethol yn cymerdwyo'r Gorchymyn Refferendwm.
23 - 25 Tachwedd 2010	Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn cymeradwyo'r Gorchymyn Refferendwm a Gorchymyn Treuliau'r Refferendwm.
15 Rhagfyr 2010	Y Gorchymyn Refferendwm a Gorchymyn Treuliau'r Refferendwm yn cael eu gwneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.
16 Rhagfyr	Dechrau cyfnod y refferendwm pan fydd y rheolau ar ymgyrchu,

2010	gwario a rhoddion yn gymwys.
19 Ionawr 2011	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i brif grwpiau ymgyrchu gael eu dynodi.
2 Chwefror 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol ddynodi prif grwpiau ymgyrchu.
9 Chwefror 2011	Y dyddiad olaf ar gyfer hysbysu ynghylch penodiad Asiantwyr y Refferendwm.
16 Chwefror 2011 erbyn 17.00	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau pleidleisio drwy'r post.
16 Chwefror 2011 erbyn canol nos	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i fod ar y gofrestr o etholwyr.
23 Chwefror erbyn 17.00	Y dyddiad olaf ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy.
24 Chwefror 2011	Y dyddiad olaf i Asiantwyr y Refferendwm benodi Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif.
3 Mawrth 2011 (rhwng 07.00 a 22.00)	Diwrnod y bleidlais.
3 Mawrth 2011 (erbyn 17.00)	Y dyddiad olaf ar gyfer dosbarthu papurau pleidleisio newydd yn lle'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd neu a aeth ar goll.
3 Mawrth 2011 (erbyn 17.00)	Y dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yn sgil argyfwng meddygol.
3 Mawrth 2011 (erbyn 21.00)	Y dyddiad olaf ar gyfer cywiro'r gofestr o etholwyr oherwydd camgymeriadau clerigol neu orchmynion llys.
4 Mawrth (heb fod cyn 09.00)	Cyfri'r pleidleisiau.
2 Ebrill 2011	Y dyddiad olaf i'r ymgyrchwyr cofrestredig gael anfonebau.

2 Mai 2011	Y dyddiad olaf i'r ymgyrchwyr cofrestredig dalu eu hanfonebau.
3 Mehefin 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol gael ffurflenni gwario a rhoddion os yw'r ymgyrchydd wedi gwario llai na £250,000.
3 Medi 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol gael ffurflenni gwario a rhoddion os yw'r ymgyrchydd wedi gwario dros £250,000.